**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
**Environment, Planning and Countryside Committee**

Carwyn Jones LLB AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a
Chefn Gwlad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2 Mawrth 2007

Annwyl Carwyn,

**Ailflaenoriaethu Prif Grŵp Gwariant yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar gynnig diwygiedig, wedi'i ddrafftio gan Elin Jones AC, i ailflaenoriaethu Prif Grŵp Gwariant yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad er mwyn adfer lefelau taliadau Tir Mynydd.

Nodir y cynnig diwygiedig yn y tabl isod:

**Cyllideb Arfaethedig Tir Mynydd**

| £m | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Domestig | 19.10 | 24.60 | 23.62 | 23.97 | 23.84 | 23.76 | 23.55 | 162.44 |
| UE | 4.89 | 4.40 | 1.68 | 1.72 | 1.64 | 1.57 | 1.47 | 17.37 |
| VM | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Cyfanswm | 23.99 | 29.0 | 25.3 | 25.69 | 25.48 | 25.33 | 25.02 | 179.81 |

Gwneir hyn drwy dorri llinellau cyllideb Tir Gofal a Thir Cynnal, fel a ganlyn:

**Tir Gofal**

| £m | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Domestig | 19.39 | 21.23 | 22.61 | 22.79 | 22.89 | 22.96 | 23.09 | 154.96 |
| UE | 3.69 | 5.01 | 5.40 | 5.41 | 5.39 | 5.38 | 5.36 | 35.64 |
| VM | 4.92 | 3.18 | 7.17 | 6.98 | 6.90 | 6.84 | 6.73 | 42.72 |
| Cyfanswm | 28.00 | 29.42 | 35.18 | 35.18 | 35.18 | 35.18 | 35.18 | 233.32 |

**Tir Cynnal**

| £m | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Domestig | 6.40 | 5.65 | 4.50 | 4.51 | 4.51 | 4.48 | 4.51 | 34.56 |
| UE | 1.63 | 2.41 | 3.72 | 3.72 | 3.72 | 3.72 | 3.72 | 22.64 |
| VM | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Cyfanswm | 8.03 | 8.06 | 8.22 | 8.23 | 8.23 | 8.20 | 8.23 | 57.20 |

Hefyd cynigir trosglwyddo i gyllideb Tir Mynydd ar gyfer 2008 £1 miliwn o linell gyllideb Tir Cymru 2007-08 ar gyfer ffermio sy'n sensitif i ddalgylch.

Yn unol â'r hyn y cytunodd Arweinwyr y Pleidiau arno yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb derfynol, mae gofyn i chi roi gwybod am ganlyniad trafodaethau'r Pwyllgor i'r Cyfarfod Llawn, ar ffurf cynnig sy'n ceisio cymeradwyaeth Aelodau'r Cynulliad i'r newidiadau a gynigir.

Yn gywir,

**Glyn Davies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**